



Ysgol Hafod Lon,
Parc Busnes Eryri,
Penrhyndeudraeth,
LL48 6LD

Pennaeth: Mrs Donna Roberts
donnaroberts@gwynedd.llyw.cymru

01766772140

post@ysgolhafodlon.co.uk

Annwyl Riant /Ofalwr

8/10/20

Trefniadau'r ysgol pe byddai achos o'r coronafeirws wedi ei gadarnhau yma.

Ysgrifennaf atoch i'ch hysbysu o'r drefn y byddwn yn ei dilyn pe byddai achos o'r coronafeirws wedi ei gadarnhau yn yr ysgol.

Os y bydd yr ysgol yn derbyn cadarnhad o achos coronafeirws yn yr ysgol byddwn yn adnabod pob disgybl sydd wedi rhannu swigen â'r person hwnnw yn unol a chanllaw sydd wedi eu gytuno gan yr Awdurdod Lleol a gwasanaeth Profi Orlhain a Diogelu Gwynedd. Yn ddibynnol ar amgylchiadau unigol, fe all hyn gynnwys swigen dosbarth, swigen amser cinio neu rai sydd wedi rhannu cludiant i'r ysgol.

Os y byddwn yn derbyn cadarnhad yn ystod diwrnod ysgol fe fyddwch yn derbyn neges a fydd yn gofyn i chi ddod i nôl eich plentyn o'r ysgol yn syth. Ni fydd caniatâd i'ch plentyn fynd adref ar gludiant ysgol na chludiant cyhoeddus.

Os y byddwn yn derbyn cadarnhad y tu allan i oriau ysgol fe fyddwch yn derbyn neges a fydd yn gofyn i chi gadw eich plentyn adref.

Fe fydd yn **ofynnol i'ch plentyn aros gartref**, peidio â mynychu'r ysgol, peidio mynd allan i wneud ymarfer corff, peidio ymweld â siopau, teulu na ffrindiau, na mynd i fannau cyhoeddus eraill. Ni ddylech wahodd pobl i'ch tŷ. Bydd aelod o dîm Profi, Orlhain a Diogelu Gogledd Cymru yn cysylltu â chi maes o law i egluro'r sefyllfa ac i gadarnhau tan bryd fydd rhaid i'ch plentyn ynysu.

Os bydd eich plentyn yn aros yn iach ni fydd angen i aelodau eraill yr aelwyd ynysu a gallant barhau â'u gweithgareddau arferol.

Os nad yw eich plentyn wedi ei adnabod fel rhan o'r swigen cyswllt agos y person sydd wedi profi'n positif yna bydd disgwyl i'ch plentyn barhau i fynychu'r ysgol.

Gofynnir i holl rieni'r ysgol ddilyn canllawiau'r ysgol yn y mater hwn yn hytrach na dilyn unrhyw wybodaeth answyddogol a rennir ar y cyfryngau cymdeithasol. Diolch.

Trefniadau'r ysgol pe byddai dosbarth yn gorfod cau yn rhannol neu'n gyfangwbl oherwydd prinder staff.

Os bydd yr ysgol yn derbyn cadarnhad fod sawl aelod o staff yn gorfod hunan ynysu, bydd hyn yn arwain at gynnal asesiad risg o allu'r ysgol i gynnal lefel briodol o staffio yn y dosbarthiadau sy'n cael eu heffeithio. Os na fydd yn bosib cynnal y dosbarth yn ddiogel, ac ar sail asesiad risg, bydd raid unai cau y dosbarth yn rhannol neu gau y dobarth yn gyfangwbl am gyfnod penodol.

Cyn penderfynu cau, bydd yr ysgol yn ceisio cyflenwi yn fewnol drwy wirio presenoldeb disgyblion ymhob dosbarth a symud staff i ddosbarthiadau eraill. Os na fydd hyn yn ddigonol, bydd yr ysgol yn ceisio cyflenwi'n allanol. Bydd yr ysgol yn gwneud pob ymdrech i gynnal y lefel staffio priodol cyn penderfynu cau dosbarth yn rhannol neu'n gyfangwbl. Byddwn hefyd yn ceisio rhoi rhag-rybudd rhesymol i chi os cyfyd y sefyllfa.

Yn gywir iawn,

Mrs D Rees Roberts